# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 30/11/2020

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Dewi Roberts, W Gareth Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams.

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan ( Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg) Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Alan Hughes (Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Aled Evans a'r Cynghorydd Medwyn Hughes

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2020 fel rhai cywir.

**5. LLYTHYRAU GAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn tynnu sylw'r Aelodau at ddau lythyr a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn derbyn sylwadau ôl archwiliad o adroddiadau lleol, ar ofal preswyl a nyrsio yng Ngogledd Cymru (yn benodol yng nghynghorau Conwy a Sir Ddinbych). Amlygwyd, er mai trefniadau lleol Conwy a Sir Ddinbych oedd yn cael eu trafod, roedd gan Archwilio Cymru bryderon ynglŷn â datrysiad pragmataidd rhanbarth Gogledd Cymru i'r her o sefydlu cronfa gyfun i ariannu lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Eglurwyd mai partneriaeth oedd y gronfa gyfun ranbarthol rhwng chwe Cyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Roedd gan y

bartneriaeth ranbarthol bryderon ynglŷn ag atebolrwydd cronfa gyfun ehangach, ac wedi sefydlu trefn risg isel, ond roedd Archwilio Cymru yn nodi nad oedd y drefn gyfredol yn cynnig gwerth am arian nac yn sicrhau'r manteision a fwriadwyd drwy gronfa gyfun.

Nododd Cynrychiolydd Archwilio Cymru bod y Gronfa wedi ei sefydlu mewn ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) gyda Sir Ddinbych yn arwain ar weinyddu'r Gronfa. Ategwyd bod costau gweinyddu'r gronfa oddeutu £20k, ac nad oedd trosglwyddo arian yn ôl ac ymlaen rhwng y partneriaid rhanbarthol yn cynnig budd i ddefnyddiwr gwasanaeth nac yn ddefnydd da o arian cyhoeddus.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y trefniant yn caniatáu i awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ac adnabod maint gweithrediad perthnasol ar draws y rhanbarth. Amlygodd ei fod yn fodlon bod y trefniant yn isafu'r risg, a bod buddion ehangach yn deillio o'r cyfraniad i rôl Sir Ddinbych. Ategodd bod trysoryddion y rhanbarth ynghyd a thrysorydd BIPBC yn cyfarfod 30/11/20 i drafod ymhellach.

Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod cynnwys y gofynion rhanbarthol yn y Ddeddf yn gamsyniad, ac na fyddai ymestyn y cronfa gyfun yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth. Awgrymodd mai cronfeydd lleol fyddai'r dull gorau, gyda hyblygrwydd i ymateb i'r angen yng Ngwynedd, tra dylai'r gweithdrefnau rhanbarthol gcanolbwyntio ar fframweithiau a strwythurau.

Ategodd yr Aelod Cabinet byddai ymestyn trefniadau'r gronfa gyfun yn uchafu risg o golli rheolaeth a bod angen diogelu trethdalwyr Gwynedd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth fyddai goblygiadau peidio cydymffurfio a gofynion y Ddeddf, nodwyd bod rhanbarth y gogledd wedi penderfynu ar gyfyngu'r gweithrediad wrth gydymffurfio â'r Ddeddf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rôl y Bwrdd Iechyd, eglurwyd bod BIPBC yn rhoi cyfraniad ar draws y rhanbarth i gyllideb gofal nyrsio.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Nad y Ddeddf yw'r strwythur orau ar gyfer llywodraethu'r arian
- Bod y ddeddfwriaeth yn enghraifft o ddiffyg y Llywodraeth i wrando ar sylwadau / barn awdurdodau lleol
- Bod swyddogion yn gwneud y lleiafswm posib i gydymffurfio gyda threfniant diangen
- Nad yw'r Llywodraeth wedi datgan yn glir beth yw'r bwriad o gyfuno'r gyllideb a'r manteision o wneud hynny
- Y dylai unrhyw ddeddfwriaeth fod yn canolbwyntio ar ddatblygu meysydd lle mae angen cydweithio a chyd gomisiynu - dylid cyfuno ar faterion cynllunio, nid ar faterion cyllido
- Bod y sefyllfa yn un anffodus.
- Y dylid cael mandad i newid y drefn - angen ail ystyried y Ddeddf - y Llywodraeth heb wrando - awgrym i ysgrifennu at y Llywodraeth yn gofyn am addasu'r ddeddf i gael trefn bendant yn ei lle
- Y dylid cyfleu anfodlonrwydd y Pwyllgor i'r trefniant yn y trafodaethau rhanbarthol

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn yr adroddiad, gan nodi llythyrau'r Archwilydd Cyffredinol a safbwynt awdurdodau lleol a Bwrdd Iechyd y Rhanbarth.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid mewn ymateb i'r Cod Ymarfer CIPFA sydd yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Adroddwyd, er gwaethaf effaith covid 19 rhwng cyfnod 1 Ebrill a 30 Medi 2020, bod gweithgarwch buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nodwyd nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Amcangyfrifwyd byddai gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn is na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2020/21.

Cyfeiriwyd at y Strategaeth Fenthyca ynghyd a rhoi diweddariad byr ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Ategwyd bod y PWLB yn lansio ymgynghoriad eang mewn ymateb i newidiadau sylweddol i'w polisi. Yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi adroddwyd bod y Cyngor, ers mis Ebrill wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig yn ystod y pandemig trwy gynlluniau grant. Derbyniwyd £62m, wedi'i fuddsoddi dros dro mewn offerynnau hylif byr-ddyddiedig fel cyfrifon galw a Chronfeydd Marchnad Arian. Talwyd £59m erbyn diwedd mis Medi. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £49.6 a £110.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Ategwyd mai prif amcan y Cyngor yw buddsoddi'r arian yn ddarbodus gan daro cydbwysedd rhwng risg ac enillion.

Adroddwyd bod rhagolygon economaidd ar gyfer cyfraddau llog wedi newid yn llwyr gyda dyfodiad y pandemig byd-eang. Y gyfradd llog ar gyfartaledd a dderbyniwyd ar falansau tymor byr oedd 0.07% yn ystod y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2020, gyda buddsoddiadau mwy diweddar yn cael eu gwneud mor isel â 0.01%. Gosodwyd y dangosydd hwn pan oedd y gyfradd sylfaenol yn 0.75% ac felly mae'n rhesymol bod cynnydd o 1% yn cael cymaint o effaith, ynghyd a'r effaith ddifrifol y mae'r pandemig wedi ei gael ar enillion buddsoddiadau.

Eglurwyd bod y rhagolygon economaidd byd-eang tymor canolig yn wan. Er bod y cyfyngiadau cloi cychwynnol llym wedi lleddfu, nid yw coronafirws wedi'i atal ac mae ail donnau wedi ysgogi mesurau mwy cyfyngol ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y cyfyngiadau hyn yn parhau i gael effaith ar weithgareddeu arferol hyd nes bod brechlyn effeithiol yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith o reoli'r trysorlys mewn cyfnod heriol ac ansicr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r posibilrwydd o orfod talu banciau i edrych ar ôl ein cronfeydd, nodwyd bod hyn yn bosibilrwydd, ond er bod y sefyllfa wedi ei osgoi hyd yma, ni ddylid diystyru cyfraddau banc negyddol i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDIGAETH a GWRTH LWGRWOBRWYO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau atal twyll ac atal llygredd y Cyngor ynghyd a chynnydd ar y rhaglen waith am y tair blynedd nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau bod rhaglen waith Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrthlygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019 - 2022 wedi ei mabwysiadu gan y Pwyllgor ar y 14eg o Chwefror 2019. Nodwyd bod y Strategaeth yn cynnwys wyth o weithrediadau y dylid eu cyflwyno yn ystod y tair blynedd er mwyn cryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Amlygwyd nad oedd swyddogion y Cyngor yn ymchwilio i honiadau o dwyll yn ei erbyn ar hyn o bryd.

Tynnwyd sylw at adnabod risgiau newydd gan gyfeirio ar y gweithrediad i gynnal gweithdai rheolaidd o swyddogion perthnasol i drafod materion sy'n codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da. Cyflwynwyd cynllun i'r Pwyllgor yn fis Gorffennaf oedd yn cynnwys archwiliadau penodol sy'n ymateb i feysydd a allai fod yn destun twyll yn sgil yr argyfwng.

Adroddwyd mai un o effeithiau'r argyfwng oedd y cynnydd mewn cyfleon twyll a sgamiau, a bod rhywun yn dod yn fwy ymwybodol o'r materion hyn o fod yn gweithio o adre drwy brofi cynifer o alwadau ffôn twyllodrus sy'n cael eu gwneud i gartrefi. O geisio ymchwilio i dwyll gostyngiad Treth Cyngor nodwyd, er y bwriad o gynnal cyfweliadau twyll, nid oedd yr amgylchiadau eleni wedi caniatáu i gamau pellach gael eu cymryd fel y disgwyliwyd gan nad oedd yr argyfwng iechyd cyhoeddus wedi caniatau cynnal cyflweliadau ffurfiol ayb.

Yng nghyd-destun defnyddio data, cyfeiriwyd at y gweithrediad i asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio data'n well er mwyn adnabod ac ymchwilio i dwyll. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn cydweithio â chwmni Datatank i ddarparu gwaith parhaus o adolygu'r disgownt person sengl a roddir i gyfrifon Treth Cyngor.  Mae ceisiadau ffug am y disgownt yma ymysg y twyll mwyaf cyffredin yn genedlaethol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thaliadau ffyrlo, nodwyd bod nifer o geisiadau ffyrlo ffug wedi eu cyflwyno ar draws Prydain. Ategwyd y byddai'r Uned Archwilio yn ymchwilio i faterion a fyddai'n ymwneud ag unrhyw geisiadau twyllodrus sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn y maes gwrth-dwyll a gwrthlygredd**

## 8. TREFNIADAU RHEOLI RISG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiadau i'r trefniadau rheoli risg, y camau gweithredu nesaf ac i ystyried os yw'r ymateb yn mynd i'r afael a'r materion a godwyd yn llythyr yr Archwilwyr. Atgoffwyd yr Aelodau mai un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor yw adolygu ac asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81 (1)(c) Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011.

Eglurwyd bod y gofrestr risg yn ddogfen fyw ac yn cael ei diweddaru'n briodol er mwyn adlewyrchu gwir sefyllfa'r Cyngor. Cydnabuwyd yn y gorffennol y gwelwyd gweithgareddau achlysurol mewn ymateb i gais i ddiweddaru'r gofrestr, ond erbyn hyn mae'r mater yn cael sylw llawer mwy cyson sydd yn arwydd bod Rheolwyr wedi dechrau gweld diweddaru'r gofrestr fel rhywbeth naturiol. Ategwyd hefyd y byddai cynnwys y gofrestr risg a'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael a'r materion sydd angen sylw, yn chwarae rhan ganolog mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad yn y dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd bod y gofrestr yn amlygu neges bositif bod trefniant yn ei le

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chofnodi'r pandemig fel risg newydd ac y dylid adnabod y gwersi a ddysgwyd o’r argyfwng, nodwyd bod y gofrestr yn arf ar gyfer blaenoriaethu, a derbyniwyd y sylw bod angen amlygu hyn yn yr adroddiad.

**Derbyn yr adroddiad fel diweddariad ar y camau y mae’r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau fod cofrestr risg gyflawn yn ei le.**

## 9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru’r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau’r Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21. Amlygwyd bod 38 archwiliad unigol wedi ei rhaglennu ar gyfer y flwyddyn gyda gwir gyrhaeddiad ar gyfer 31/10/20 yn 18.42% - allan o’r 38 archwiliad roedd 7 wedi ei rhyddhau yn derfynol / cwblhau. Mewn ymateb, i’r argyfwng covid-19, nodwyd, bod rhai o swyddogion yr Uned Archwilio wedi cael eu trosglwyddo i’r Gwasanaeth Refeniw i gefnogi’r gwasanaeth i weinyddu grantiau busnes Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â goblygiadau cwblhau llai o archwiliadau na’r hyn a gynlluniwyd, amlygodd y Rheolwr Archwilio bod angen addasu’r ffordd o gynnal archwiliadau. Derbyniwyd bod cynnal archwiliadau yn anodd yn yr hinsawdd bresennol, ond ymddengys tuedd gan wasanaeth o beidio â gweithredu oherwydd gofynion ychwanegol o ganlyniad i’r argyfwng. Ategwyd bod angen rhoi cyfarwyddyd i swyddogion gydweithredu, ond pwysleisio na fyddai’r gwaith yn amharu ar swyddogion allweddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae’r uned yn goresgyn y cyfyngiad o fynd ar safle, mynegwyd bod yr Uned yn ceisio osgoi ymchwiliadau lle mae angen mynd a’r safle gyda nifer bellach yn cael eu cynnal drwy gyfrwng Teams a thystiolaeth yn cael ei dderbyn drwy e-byst. Amlygwyd bod risg o fethu darparu sicrwydd a mynegwyd bod yr Uned yn ceisio cydweithio gyda gwasanaethau i geisio gwneud pethau mor rhwydd â phosib i swyddogion weithredu.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr wybodaeth, gan nodi’r cynnwys fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2020/21**
- **Cefnogi’r Uned Archwilio i ddwyn perswâd rhesymol ar Adrannau fel bod modd parhau i gynnal y gwaith yn briodol o dan yr amodau**

## 10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor yn adrodd ar gyfarfod a gynhaliwyd 10/11/2020 i drafod yr archwiliad ‘Goramser’ mewn ymateb i benderfyniad y Pwyllgor (30/07/20) i alw Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gyfarfod y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod y mater ymhellach. Derbyniwyd, er bod rheolaethau mewn lle bod angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a /neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.

Mynegodd y Rheolwr Archwilio nad oedd y polisi cyfredol yn synhwyrol o ran talu goramser – gellid talu am oramser os yw’r gwaith wedi ei gynllunio o flaen llawn (rhaglenedig) ond dim ar gyfer gwaith heb ei gynllunio (unplanned). Ategodd os oedd Rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw waith rhaglenedig, yna nad oedd rhesymeg pam na allai hynny gael ei raglennu i raglen waith arferol y gwasanaeth a bod taliadau goramser i’w talu ar gyfer argyfyngau yn unig.

Adroddwyd bod y Rheolwr Ymgynghorol Gwasanaethau Adnoddau Dynol wedi nodi bod y polisi wedi ei sefydlu beth amser yn ôl a bod angen ail-ymweld â'r polisi a'r trefniadau goramser yn gorfforaethol. Datganwyd bod prosiect eisoes ar y gweill.

Deilliant y cyfarfod oedd i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ail-ymweld â'r cynllun gweithredu gan ei ddiweddaru o safbwynt dyddiadau gweithredu.

Nodwyd bod y drafodaeth wedi bod yn fuddiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth**

## 11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod hyd 31 Hydref 2020. Amlygwyd bod 10 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau.

Yn ogystal gwnaethpwyd gwaith ar archwiliad "Datganiadau Cyflogaeth". Bwriad yr archwiliad oedd gwirio bod cymal ynglŷn â hyfforddiant statudol megis diogelu wedi ei gynnwys yn natganiadau cyflogaeth holl staff y Cyngor er mwyn atgyfnerthu'r pwysigrwydd bod y cyfrifoldeb yn berthnasol i bawb. Detholwyd sampl o 40 aelod o staff ar draws y Cyngor oedd yn newydd i'w swydd ers mis Ionawr 2020 a gwriwyd eu datganiadau cyflogaeth a chofnodion hyfforddiant. Darganfuwyd nad oedd y cymal wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o'r datganiadau cyflogaeth a ddetholwyd. Cysylltwyd â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), a cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol nad oedd gwaith wedi ei wneud i gynnwys y cymal oherwydd bod amgylchiadau Covid-19 wedi amharu ar gyflawni hynny. I'r perwyl hyn, penderfynwyd peidio dyrannu lefel sicrwydd ond i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ail-ymweld â'r maes yn ystod chwater 4 2020/21, gan ddethol sampl newydd o aelodau o staff. Bydd y darganfyddaidau yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Hydref 2020 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12.00yp

____________________________

**CADEIRYDD**